PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 419 | Mai 2019



Jin lleol t.8



Lisa yn Llundain t.7



Anrhydedd i Iestyn t.6

# Twrnament Pêl-droed Penrhyn-coch



Enillwyr dan 9 Bow Street



Ail dan 12 - Llanilar



Enillwyr dan 12 - Llanbed



Dan 14 - Ail. Padarn



Enillwyr dan 14 - Ystwyth Gators
Ail. Padarn



Ann Tudor yn cyflwyno Cwpan Coffa er cof am Gwenno Tudor i'r ferch sydd wedi chwarae orau i Magi Rowlands, Tim merched Penrhyn-coch

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Edwards**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg,
Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mehefin** Deunydd i law: Mehefin 7 Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 19

MAI 16 Nos Iau Lansio hunangofiant Beti Griffiths Rho imi nerth yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth am 6.30 Croeso cynnes i bawb

MAI 16 Nos Iau Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion yn Neuadd Lisburne, Llanafan am 7.30

MAI 18 Dydd Sadwrn Ffair Haf Meithrinfa Plas Gogerddan yn y Feithrinfa o 12.00-3.00

MAI 22 Nos Fercher Cyfarfod PACT yn Neuadd Rhydypennau, Bow Street, am 7.00

MAI 22 Nos Fercher Pwyllgor Apêl Melindwr Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion 2020 yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 8.00

MAI 23 Dydd Iau Etholiadau Ewrop Bydd y blychau pledleisio ar agor rhwng 7 y bore a 10 y nos

MAI 23 Nos IauDatganiad Organ gan Tudur JonesFRCO,Tywyn,yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth am7.00 o'r gloch. Tocynnau'n £5oddi wrth Rhiannonneu Ann (01970 615409 / 626987) neu wrth y drws ar y noson.Holl elw'r noson yn mynd atApêl Madagascar.

MAI 24 Nos Wener Noson Goffi Pwyllgor Henoed Bow Street a Llandre yn Neuadd Rhydypennau am 7.00

MAI 24 – 27 Dyddiau Gwener i Llun Gŵyl Bwgan Brain y Borth. Thema: Y Môr

MAI 25 Nos Sadwrn Tudur Wyn, Dafydd Jones ac Emma Marie gyda Glan Davies yn arwain yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth am 8.00. Tocynnau yn £10 ac ar gael o Llety Parc, Inc, Siop y Pethe neu Megan 612768 Nifer cyfyngedig o docynnau fydd ar gael, felly cyntaf i'r felin fydd hi! Yr elw at Apêl Aberystwyth a'r Cylch ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

MAI 26 – MEHEFIN 1 Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Bae Caerdydd

MAI 26 Dydd Sul Cystadleuaeth Golff Agored Penrhyn-coch ar Gwrs Golff Aberystwyth yn cychwyn am 13.30 Ffioedd y cwrs: £12.50 y person Barbeciw yng Nghlwb Pel-droed Penrhyn-coch i ddilyn o 5.00 ymlaen Gwobrau ariannol a raffl. Rhoddir y tlysau gan Gavin Hughes-Evans a'r teulu er cof am Cyril's Keys.

MAI 27 Nos Wener Noson anffurfiol yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch i ddiolch i rai gefnogodd fenter Jin Trafferth mewn Tafarn am 7.30

MAI 31 Nos Wener Hakwstig yn cyflwyno Ffion Evans, Nerys Clark, Eurig Salisbury, Nesdi Jones, Gwilym Bowen Rhys a Bwca yn Arad Goch, Aberystwyth am 7.30 Tocynnau: £15 (£13) Elw'r noson i Eisteddfod Genedlaethol 2020

MEHEFIN 6 Nos Iau Eurig Salisbury a Hywel Griffiths yn cyflwyno Iwan Huws (Cerddi a chaneuon o'i gyfrol gyntaf newydd sbon o farddoniaeth) a Georgia Ruth yn Cicio'r Bar yn Stiwdio, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am 19.45 Tocynnau: £7.00

MEHEFIN 8-9 Dyddiau Sadwrn a Sul Pencampwriaethau Beicio Mynydd Prydain yng Nghoed Gogerddan

MEHEFIN 8 Dydd Sadwrn Taith flynyddol Cymdeithas y Penrhyn i ardal Caerfyrddin dan ofal Peter Hughes Griffiths. Manylion gan ac enwau i Ceris Gruffudd **SYLWER AR Y NEWID DYDDIAD**

MEHEFIN 15 Prynhawn Sadwrn Taith Gerdded Noddedig Apêl Melindwr Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion 2020 o Ganolfan Ymwelwyr Cwmrheidol am 1.00

MEHEFIN 15 Nos Sadwrn Lansiad swyddogol Jin Trafferth mewn Trafferth – Cronfa Leol Trefeurig 2020 yn y Llew Du, Aberystwyth am 7.30 Cerddoriaeth, cerddi a chyfle i flasu'r jin.

MEHEFIN 15 Dydd Sadwrn Diwrnod Hwyl yr Haf i deuluoedd ar safle Neuadd Gymunedol y Borth

MEHEFIN 19 Nos Fercher Cyfarfod blynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

MEHEFIN 19 Nos Fercher Taith gerdded hamddenol o ryw 45 munud dan ofal tywysydd lleol. Cychwyn o Neuadd Rhydypennau, 5.30pm a dychwelyd yno am farbeciw. Pris y pen i'w gadarnhau. Elwat Eisteddfod 2020,apêl Tirymynach.Croeso cynnes i gerddwyr a chefnogwyr o bob oed! Manylion pellach: Anwen, 07976049774

MEHEFIN 21 Nos Wener BBQ Ffrindiau Cartref Tregerddan yn y Cartref am 6.30 o'r gloch. Croeso i bawb.

MEHEFIN 29 Dydd Sadwrn Parti PATRASA yn y Parc, Penrhyn-coch

MEHEFIN 29 Dydd Sadwrn Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 yn Aberteifi

MEHEFIN 29 Prynhawn Sadwrn Te hufen a mefus Eglwys Sant Ioan rhwng 3.00 a 5.00.

MEHEFIN 30 Pnawn Sul Datganiad organ gan Meirion Wyn Jones ym Methel, Aberystwyth am 2.30. Rhan o Ŵyl Gregyno

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Ebrill 2019

**£25** (Rhif 2 ) Meinir L Roberts, 4 Bryn Meillion, Bow Street
**£15** (Rhif 64) Stephen Williams, Llys y Coed, Penrhyn-coch
**£10** (Rhif 148 ) Delyth M Morgan, Ger y Nant, Dolau

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Ebrill 17.

## 30 MLYNEDD YN OL




Rhai o'r nifer o gyfeillion ac aelodau o'r eglwys (Llanfihangel Genau'r-glyn) yn ystod y parti ffarwelio â'r ficer ( Y Parchg K.C. Herbert) (O'r *Tincer* Ebrill 1989)

**Cyfeiriadur o arlunwyr a gwneuthurwyr 2019**

Cyhoeddwyd yn ddiweddar y llawlyfr yma – taith Celf Ceredigion. Rhestrir dau artist o ardal y Tincer ynddo. Lleolir "Bow Street Art" yn 45 Tregerddan. Disgrifir Gary Hiscott fel Cristion sydd yn gweld y byd fel ffordd o ddehongli ei ffydd ac agor llygaid eraill i bethau nad oeddynt yn ymwybodol ohonynt. Hefyd fel 'ychydig yn od, direidus a lliwgar'. Un o luniau Bow Street Art geir ar glawr y llyfryn. Mae gwefan ar gael www.artfinder.com/gary-hiscott ac mae yn rhaid trefnu ymweliadau ymlaen llaw. 01970 822105.

Yr artist arall yw Maureen Alderslade sydd yn cynhyrchu delweddau cael ei hysbrydoli gan harddwch naturiol Gorllewin Cymru. Mae modd ymweld â 1 Tancnwch, Aberffrwd (01970 880701) ar ddyddiau Llun a Sul rhwng 10.30 a 16.30 rhwng y Pasg a mis Medi.

Mae y llyfrynnau ar gael am ddim – yn Garej Tŷ Mawr a Llythyrdy Penrhyn-coch a mannau eraill ac mae modd gweld manylion ar y wefan ceredigionarttrail.org.uk







Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

**Y Tincer drwy'r Post**

Mae gan y Tincer drefnyddion newydd i'r gwasanaeth Y Tincer drwy'r Post. O hyn ymlaen y brodyr Edryd ac Euros Evans (33 Maes Afallen, Bow Street SY25 5BL) fydd yng ngofal y gwasanaeth – diolch iddynt am gytuno. Magwyd y brodyr ym Methesda, Gwynedd ond mae cysylltiadau teuluol ganddynt â Than-y-groes, Ceredigion a Bow Street. Gellir tanysgrifio i'w dderbyn trwy'r post am £18 y flwyddyn (£7 drwy ebost)– mae prisiau uwch os am ei dderbyn dramor. Pob hwyl iddynt ar y gwaith.

# Y BORTH



Rhes flaen: Dafydd Roberts (Cadeirydd Ymddiriedolaeth Nansi Richards); Mared Emyr Pugh-Evans (Enillydd Ysgoloriaeth Nansi Richards 2019); ac Angharad Wyn Jones (Beirniad).
Rhes ôl: Cystadleuwyr Ysgoloriaeth Nansi Richards 2019 – Chloe Powell-Davies; Alis Huws; Rebecca McIlroy; Nia Cerys Evans; ac Elain Rhys Jones

**Mared yw enillydd Ysgoloriaeth Nansi Richards 2019**

Roedd chwech o delynorion o fri yn cystadlu am yr Ysgoloriaeth eleni a merch o'r Borth enillodd y wobr o £1,500. Cynhaliwyd cystadleuaeth Ysgoloriaeth Nansi Richards eleni yn Galeri, Caernarfon yn ystod Gŵyl Delynau Cymru ar nos Fercher, 17eg o Ebrill. Er bod y cystadleuwyr i gyd wedi rhoi perfformiad gwych, dim ond un enillydd oedd, sef Mared Emyr Pugh-Evans sy'n astudio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama yng Nghaerdydd.

Cynigir yr Ysgoloriaeth hon i delynorion o dan 25 mlwydd oed, sy'n byw yng Nghymru neu wedi eu geni yng Nghymru. Dywedodd y beirniad, Angharad Wyn Jones, "Mae'n fraint i mi gael beirniadu'r Ysgoloriaeth eleni gan i mi ennill yr Ysgoloriaeth fy hun yn 2002. Mae hi wedi bod yn gystadlaeth o'r safon uchaf ac mae pob telynor a oedd yn cystadlu heno gyda dyfodol disglair o'u blaenau."

Mae Mared yn bwriadu defnyddio'r arian i dalu am wersi meistr unigol, i dalu am gerddoriaeth newydd a chostau teithio i gystadlaethau rhyngwladol.

Dros y blynyddoedd mae'r Ysgoloriaeth wedi cyfrannu dros £30,000 i sawl telynor sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn yn eu gyrfa gerddorol. Yn 1976 cynhaliwyd cyngerdd teyrnged i Nansi Richards, Telynores Maldwyn, yng Nghorwen pan roedd hithau yn y gynulleidfa. O elw'r cyfarfod hwnnw sefydlwyd cronfa, a ffurfiwyd Ymddiriedolaeth i ofalu am yr arian. Cynhaliwyd y gystadleuaeth gyntaf yn 1983 ac mae'r Ysgoloriaeth wedi parhau ers hynny.

Eleni mae hi'n garreg filltir yn hanes Nansi, gan iddi farw 40 mlynedd yn ôl, ac fe fyddai hi wedi bod yn hynod o falch o'r Ysgoloriaeth, sydd yn gymorth mawr i delynorion ifanc a dawnus.

**Cymdeithas Henoed y Borth**

Bu'r ychydig gyfarfodydd diwethaf yn wahanol ac yn hudol. I ddechrau cawsom Aerobics cadair gyda Sarah Tudor. Cymaint o hwyl ac ymarfer gwych i bawb, dim ots sm oed na chryfder corfforol. Mae  Sarah mor gefnogol. Wedyn daeth Dee Matthews i roi sgwrs ar hanes tatŵs. Mae hanes hir i'r gwaith celf yma a siaradodd Dee mor dda gan ddangos llawer o luniau i ni o datŵs modern a rhai mwy hynafol o wahanol rannau y byd yn ogystal â dangos yr iffer ddefnyddiwyd. Roedd yn hynod ddiddorol a goleuedig.

Yn nesaf buom yn sinema Libanus yn y Borth - diolch i Peter a Grug am ddangos y ffilm'Stan & Ollie' i ni. Ffilm wych ac, er syndod i ni, yn drist ar adegau. Cawsom brynhawn pleserus iawn.

Yn olaf cawsom ymweliad ganMererid o Gyngor Ceredigion a siaradodd am ailgylchu. Roedd y agwrs yn agoriad llygad i ni gyd ac yn esgor ar lawer o gwestiynau i Mererid eu hateb.

Fe'n synnwyd at rai pethau oedd modd eu hail-gylchu ac wedi cael sioc fod pethau eraill a rown i'w hail-gylchu nad ydynt addas i hyn. Roedd Mererid yn siaradwraig wych a chawsom brynhawn difyr. Yr wythnos yma edrychwn ymlaen at sgwrs gan Helen Palmer o Archifdy Ceredigion. Siaradwraig arall wych sydd wastad yn ein synnu gyda'r pynciau difyr a drafodir.



Ar Fai 23ain bydd gennym daith fws iLangollen. Mae'r Gymdeithas yn cyfarfod bob yn ail ddydd Iau yn Neuadd Gymunedol y Borth gan ddechrauam 2.00 p.m. Cysyllwch â Joy ar 871649 am fanylion.

Ar nodyn trist bu farw ein Llywydd Anrhydeddus, Mrs. Ann Newby, ym Mawrth yn 99 oed. Roedd wedi dathlu ei phen blwydd yn Ionawr yng Nghartref Tregerddan, ers iddi symud yno yn Ionawr. Roedd y staff mor garedig a gofalus o Ann yn ystod yr wythnosau olaf o'i bywyd. Gwelir yn y llun ei phen-blwydd yn 98 - un o'i hoff luniau.

Bydd y Gymdeithas yn gweld colli Ann yn fawr gan iddi fod yn aelod ers blybyddoedd ac iddi fod yn ysgrifennydd, cadeirydd ac, yn ddiweddar, Llywydd Anrhydeddus.

**Eglwys St Matthew**

Roedd EglwysSt. Matthew yn llawn o bobl ar Sul y Pasg yn dathlu a llawenhau yn adgyfodiad Crist. Arweinwyd y gwasanaeth gan y Parchg Ganon Stuart Bell. Roedd mor braf cael llawer o blant oedd ar ymweliad, o deuluoedd ar ymweliad yn ymuno â phlant yr ysgol Sul arferol yn y Den i glywed y stori ac i wneud celf a chrefft Sul y Pasg. Canodd y plant i'r gynulleidfa ar ddiwedd yr oedfa emyn fer a ddysgwyd y Sul hwnnw. Roedd gwasanaeth cymun Sul y Pasg yn amser o lawenydd a bendith i bawb a gyfrannodd. Roedd hefyd gerddoriaeth fiola hyfryd yn gyfeiliant i rai o'r emynau gan Catherine Murray. Darparwyd bisgedi'r Pasg a danteithion ar ddiwedd y gwasanaeth a





chymerodd y plant ran mewn Helfa Wy Pasg o amgylch yr eglwys. Trefnwyd yr Helfa gan Izzy o'n hysgol Sul. Fel y gwelwch o'r lluniau roedd y plant wedi gwneud gardd Basg hyfryd gyda'r Iesu a ffigyrau eraill ac yn cynnwys defsud, blodau, coed ac adar wedi eu gwneud o glai a'i baentio ar ôl iddo galedu. Roedd y bwrdd, wnaed gan Steve, wedi ei baentio a'i addurno gan y plant dan ofal y brofiadol Mrs. Prue Bell. Diolch i bawb gynorthwyodd gwneud dathliad Sul y Pasg St Matthew yn amser mor hapus a bendithiol.

**Amser prysur i'r Bad Achub**

Galwyd gwirfoddolwyr Bad Achub y Borth allan am 10:15 fore Llun y Pasg - Gŵyl y Banc pan glywyd fod dau fachgen ifanc ar ddingi yn drifftio allan i'r môr. Roeddynt wedi bod yn chwarae ger gorsaf y bad achub a'r gwynt wedi eu chwythu allan i'r môr. Lansiwyd y bad achub ond erbyn hynny roedd un o'r bechgyn wedi nofio nôl i'r lan ac yn saff gyda'i deulu. Achubwyd y llall a rhoddwyd cyngorion i'r ddau.

Daeth galwad arall am 11:30 y bore - y tro yma ar ôl cael adroddiad fod dau nofiwr - gwraig oedrannus a gŵr canol oed mewn trafferth ger Trwyn Pellaf ger Craig yr Wylfa. Adroddwyd fod y nofwyr wedi bod yn y môr am awr a'u bod yn cael trafferth dychwelyd i draeth y Borth. Roedd nofiwr arall wedi aros efo nhw am 20 munud ac wedi llwyddo i roi bwi nofio iddynt i'w cynorthwyo tra aeth ef i chwilio am gymorth. Fe'u gwelwyd gan ddau hyfforddwr o ysgol syrffio leol ac aethant draw i gynorthwyo. Llwyddodd y ddau - oedd yn digwydd bod yn wirfoddolwyr y Bâd Achub hefyd - i'w cadw i arnofio hyd y cyrhaeddodd y Bâd Achub.

Unwaith y cyrhaeddodd y bâd achub daeth yn amlwg fod y ddau nofiwr wedi bod yn rhy lluddedig ac oer i allu dringo i'r bâd achub felly roedd yn rhaid i'r criw eu codi i fyny.

Aethpwyd â'r nofwyr yn ôl i orsaf bâd achub y Borth lle cawsant eu trin am effaith yr oerfel.

Unwaith yr oeddynt yn ddigon da cawsant gyngor i fynychu ysbyty a hefyd eu bod yn cymryd camau i wresogi ei hunain. Roedd y ddau nofiwr yn hynod ddiolchgar am y cymorth gawsant.

Ar ôl cael canlyniadau cystal i ddau ddigwyddiad dychwelodd y criw adref i fwynhau gweddill Gŵyl y Banc gyda'u teuluoedd.

**Croeso nôl**

Estynnwn groeso yn ôl i'r Borth i Mrs. Elizabeth Davies o Gapel Seion. Gobeithio y byddwch yn setlo yma gyda'r teulu ar ôl bod allan o'r ardal ers rhai blynyddoedd.

**Cronfa Apêl y Borth**

Daeth hanner cant o bobl ynghyd Nos Sul 21 Ebrill i gefnogi'r digwyddiad cyntaf i'w drefnu gan Gronfa Apêl y Borth ar gyfer Eisteddfod Ceredigion 2020.

Yng nghaffi Boulders uwchlaw siop Nisa yn y pentref, cynhaliwyd bwyty pop-yp gyda phryd tri-chwrs wedi'i baratoi gan Rhodri Edwards, cyn berchennog Y Ffarmers yn Llanfihangel-y Creuddyn.

Cafwyd adloniant gan dri cherddor lleol (Sue, John a'u mab Connell o Landre) a Rhys Harries, un o aelodau'r grŵp Catsgam.

Roedd cyfanswm yr elw ar ddiwedd noson hwyliog yn £943, a hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, yn enwedig Derek a Gwenda (perchnogion Nisa) a Jane sy'n rhedeg caffi Boulders.

Caiff y digwyddiad nesaf ei gynnal ddydd Sadwrn 15 Mehefin sef diwrnod Hwyl yr Haf i deuluoedd ar safle Neuadd Gymunedol y Borth.





## Colofn **BEN LAKE** AS

Cyd-drafod, cyd-gynllunio, cydweithio a chyd-adeiladu: ry'n ni Gymry yn gyfarwydd iawn â gweithio gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn ein cymunedau lleol.

Mae'n drueni nad yw ysbryd cydweithredol y Cymry wedi ymdreiddio i furiau San Steffan dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf. Ychydaig ohonoch fydd yn synnu o ddarllen mai Brexit sydd wedi mynnu y lle blaenllaw yn San Steffan. Yn union fel mae'r mater wedi ymddangos ymhob bwletin newyddion, mae'n dylanwadu bron yn llwyr ar drafodion y Llywodraeth.

Er bod yna faterion pwysig eraill yn cael eu trafod yn y Tŷ Cyffredin, ychydig o amser gwerthfawr sy'n cael ei ganiatàu mewn gwirionedd i gyflwyno a phasio cyfreithiau fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cymdeithas.

Po hwyaf yr erys Brexit ar yr agenda ddeddfwriaethol, hwya yn y byd yr aiff materion o bwys heb eu trafod – megis polisi newid hinsawdd Llywodraeth y DU, diwygiadau i'r pensiwn gwladol, neu effaith y toriadau parhaus i wariant cyhoeddus.

Anodd fydd mesur cost gwirioneddol y diffyg gweithredu hwn, ond mae nifer cynyddol o Aelodau Seneddol yn credu bod gweithio ar draws y pleidiau yn gwbl angenrheidiol os ydym am ddarganfod datrysiad i Brexit - gan ddatgloi, ymhen amser, y logjam seneddol sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Byddai llawer yn dadlau y dylai fod mwy o gydweithio wedi bod yn digwydd yn y Senedd ers tro: y dylai pob ochr fod wedi dilyn ffordd mwy cydweithredol a llai pleidiol o fynd ati yn dilyn etholiad cyffredinol 2017. Rwy'n cytuno â hynny'n llwyr, a byddaf yn parhau i drio annog a chymell mwy o gydweithio, cyd-drafod a chydsynio yn y Senedd dros y misoedd nesaf er lles cymunedau Cymru.

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Capel Pen-llwyn**

*Mai*

19 10.00 Beti Griffiths
26 11.15 Oedfa deulu

*Mehefin*

2 10.00 Dr. Watcyn James (Oedfa Gymun)
9 10.00 Dr. Terry Edwards
16 5.00 Y Parchg Carwyn Arthur
23 10.00 Oedfa'r Ofalaeth – Pen-llwyn
30 11.15 Gŵyl yr Ysgol Sul - Morlan Aberystwyth

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Mrs. Eirwen McAnulty a'r teulu ym marwolaeth ei chwaer Mrs. Wynora Thomas, Llanbadarn Fawr.

Hefyd cydymdeimlwn â Mrs. Maggie Jones a'r cysylltiadau agos wrth iddi golli ei brawd yn ddiweddar, Mr. Kenneth James. Cofiwn am Wynora a Kenneth wrth iddynt dreulio eu blynyddoedd cynnar yn ein plith ni yma ym Mhen-llwyn. Coffa da amdanynt.

**Merched y Wawr Melindwr**

Mae blwyddyn ein cyfarfodydd yn dod I ben gyda chyfarfod blynyddol mis Mai. Felly ar ôl trafod busnes y mudiad a threfniadau ein taith ddirgel roedd yn amser ethol is-lywydd ac is-ysgrifennydd. Yn anffodus gyda bron hanner yr aelodaeth yn unig yn bresennol roedd rhaid gohirio yr olaf. Mae'n amlwg fod rhai canghennau yn rhannu'r cyfrifoldeb gydag aelodau yn gyffredinol yn trefnu gweithgareddau pob mis. Trafodir hyn a phenderfynu ym mis Medi.

Rhoddwyd croeso cynnes i Mrs Llinos Dafis gan ein Llywydd Delyth Davies. Roedd y mwyafrif yn ei hadnabod fel merch leol o Bow Street ac aelod o Ferched y Wawr Rhydypennau. Aeth Llinos ymlaen i'n diddanu ni gyda lluniau a storïau am 'Menywod fy Mywyd.' Roedd yn amlwg bod llawer o ferched wedi cael dylanwad arni pan oedd hi yn bymtheng mlwydd oed ac yn cael addysg yn Ysgol Ramadeg Ardwyn. Talwyd teyrnged i ferched y tu allan i'w theulu ond yn byw yn yr un pentref. "Mistres" ysgol feithrin gynt yn agor ystafell ei thŷ fel stafell feddygol gyhoeddus.

Aeth ymlaen i sôn am ei hen fam-gu - yn wreddiol o Ros-y-garth yn byw yn y pentref wedi priodi a 9 o blant a hithau yn parhau gwau sanau. Nid oedd yn ei nabod ond clywodd sôn amdani. Aeth ymlaen i egluro bod y mitochondria yn ei hen fam-gu wedi dod i lawr trwy ei mam iddi ac yna i lawr i'w merch. Dangoswyd llawer o luniau o Eluned Morgan, ei mam ac roedd yn eglur bod perthynas arbennig rhyngddyn nhw.




Diddorol oedd clywed bod y Frenhines Buddug, Gwenllian Cydweli, Arglwyddes Llanofer, Branwen, Ruth a Naomi i gyd wedi dylanwadu arni. Gorffennodd trwy sôn am Helen Thomas - merch ifanc yn ei thridegau laddwyd yn croesi'r ffordd y tu allan i safle Comin Greenham lle mae carreg goffa iddi yn yr ardd goffa. Gorffennodd wrth dynnu sylw i soned Dic Jones "I'm cydnabod".

Roedd pawb wedi mwynhau y ddarlith yn fawr a rhoddwyd y diolchiadau i Llinos gan Delyth drosom. Clowyd y noson fel arfer dros baned. Bydd y daith ddirgel dydd Sadwrn Mehefin 22 yn cychwyn o Neuadd Pen-llwyn am 8-45 y bore. Edrychwn ymlaen yn fawr.

**Sêr ym myd y bêl**

Llongyfarchiadau i Iestyn Lewis, Tanffordd wrth iddo dderbyn anrhydedd o fod yn Chwaraewr y Chwareuwyr am 2018/19 dros dîm pêl-droed Llanilar; gelwir y tîm yn "Llewpart A".

Caiff Iestyn a'i frawd mawr Morgan bleser yn chwarae pêl-droed ac enillodd tîm Morgan, sef tîm Ieuenctid Bow Street y twrnamaint ym Mhenrhyn-coch yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Tomos Evans, Rhiwarthen Isaf, Capten tîm pêl-droed dan bedair ar bymtheg Aberystwyth, am ennill Pencampwriaeth Datblygu Uwch Gynghrair Cymru. Y sgôr oedd 2 - 1 yn erbyn Derwyddon Cefn. Gwych yn wir!



Iestyn Lewis

**Taith tractorau**

Cynhaliwyd taith tractorau ar Fai 5 i godi pres i Beiciau Gwaed Cymru a dathliad Sioe Capel Bangor a'r Cylch 2020. Fe wnaeth bron i ddeugain ynuno yn y daith ar ddiwrnod braf ac i ddiweddu y noswaith bu adloniant a bwyd yn Nhafarn yr Half Way, Pisgah.



**Cael paned a chacen ar eu taith ger argae Nant-y-moch ar ôl gadael Gelli Angharad a chyn cyrraedd Tafarn Halfway.**

## LLANDRE

**Llwyddiant Karate**
Llongyfarchiadau i Ffion Evans ar gael ei dewis i fod yn aelod o sgwad Karate Cymru. Hefyd llwyddodd i ennill pencampwriaeth Karate Gogledd Cymru yn ddiweddar.

**Tlws yr Ifanc Pontrhydfendigaid**
Llongyfarchiadau mawr i Glain Llwyd, Pentan, Llandre am ennill Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid. Y dasg oedd ysgrifennu tri darn o lenyddiaeth cyferbyniol Cymraeg a cafodd Glain ganmoliaeth uchel gan y beirniad Geraint Roberts.




*Trefnwyr Angladdau*
***C T Evans***
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**


## CLARACH

**Marathon Llundain**
Bu Lisa James o Gilwern, Clarach, yn rhedeg marathon Llundain ar y 28ain o Ebrill tuag at ymchwil i glefyd Parkinson's. Ar hyn o bryd mae'n feddyg yn ysbyty Southport ac yn byw yn Lerpwl. Mae'n dod ar draws nifer o bobl sy'n dioddef o'r cyflwr yn ei gwaith a bu ei mam-gu, Muriel Morgan o Dal-y-bont farw o'r clefyd sy'n llethu llawer o bobl. Hefyd mae ei chymydog adref yma yng Nghlarach yn dioddef o'r cyflwr sef y meddyg Mr. Peter Gardner a ddaeth â hi i'r byd. Ei phrif hobi ers yn blentyn yw nofio ond penderfynodd ymroi i gymryd rhan ym marathon Llundain y flwyddyn hon. Roedd eisoes wedi gwneud sawl hanner marathon a threiathlon ond dyma'r marathon llawn cyntaf. Cafodd yr ymarfer ei lesteirio braidd gan bigwrn poenus ond cafodd hwb ar y dydd gan gefnogaeth y dorf a bwrlwm yr holl ddigwyddiad. Erbyn diwedd y marathon roedd dyfalbarhad a phenderfyniad yn amlwg ar wynebau y rhedwyr i gyd - yn enwedig y rhai oedd yn rhedeg i godi arian at elusen er nad oedd rhai ohonynt yn athletwyr naturiol. Erbyn dechrau Mai roedd Lisa wedi codi £975.53 tuag at yr ymchwil i Parkinson's.




## TREFEURIG

**Tabernacl Cwmsymlog**
Mae perchennog newydd y Tabernacl wrthi yn addasu yr adeilad ac yn awyddus i weld hen luniau o'r Capel. Os oes gennych rai gellir eu gyrru d/o Golygydd y Tincer.

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus hwyr i Edwina Davies, Darren Villa, ar ddathlu ei phen blwydd yn 80 ar Fai 15. Cafwyd dathliad gyda'r teulu ar y Sadwrn cynt.

## GOGINAN

**Dyrchafiad**
Llongyfarchiadau i Alan Ingram, Llygad y Glyn, ar ei ddyrchafiad yn ei waith i fod yn Reolwr yr iard Cwm Nant gyda "CB Environmental".

**Marathon**
Braf oedd gweld Rhys Bebb, Blaendyffryn gynt, yn cael ei gyfweld ar Heno Nos Wener Mai 3 am ei fod yn rhedeg yn Marathon Casnewydd ar Fai 5. Cyflawnodd y ras mewn amser o dair awr a phedwar deg pedwar munud.

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Kirsty a Dan, Llain Fach, ar enedigaeth merch fach ddiwedd mis Mawrth.

**Urdd y Benywod**
Cynhaliwyd bore coffi a Pwyllgor blynyddol yng Nghanolfan Groeso Statkraft. Cafwyd orig ddiddorol iawn yn trafod y ffordd ymlaen ac mi 'roedd pawb yn unfrydol bod yna le i'r Urdd ym mywyd yr ardal. Edrychwn ymlaen i gynnal cyfarfod ar gyfer paratoi rhaglen y gaeaf.

## DOLAU

**Gwella**
Braf yw gweld Margaret Mason, Bryngwynmawr, adre ac yn gwella ar ôl treulio ychydig wythnosau yn ysbyty Bron-glais.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Gaenor a'r teulu, Minafon, ar farwolaeth Eric ar ôl cystudd hir. Cynhelir gwasanaeth cyhoeddus dydd Sadwrn 17 Mai am 1.30 yng Nghapel y Garn. Derbynnir rhoddion, os dymunir, tuag at Kennedy's Disease UK trwy law Gwyn Evans, Cyfarwyddwr Angladdau, Llandre.


Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# PENRHYN-COCH

**Suliau Horeb**

*Mai*

19 2.30 Y Parchg Peter Thomas

26 10.30 Y Parchg Peter Thomas

*Mehefin*

2 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun

9 10.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa deuluol

16 2.30 Y Parchg Carys Awen Jones, Llanelli

23 Taith i'r Ysgwrn – Bethel yn trefnu gadael tua 12.15 – enwau i Ceris

30 10.00 – Peter Thomas – Bethel; datganiad organ gan Meirion Wyn Jones yn y prynhawn ym Methel am 2.30 Rhan o Ŵyl Gregynog

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlŵn â Elisabeth Wyn, Glan Ceulan, ar farwolaeth ei brawd Gwynfor Evans (y canwr Mike Hudson) yn Ysbyty Wrecsam ar Ebrill 4ydd.

**Clywed y gog**

Clywyd y gog gyntaf eleni ger Pen-dam dydd Gwener 19 Ebrill

**Pen blwydd arbennig**

Dymuniadau gorau i Ann Pen-banc ddathlodd ei phen blwydd yn 60 yn ddiweddar. Da deall ei bod yn gwella.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Glenys a William Howells, Rhyd y Gof, ar enedigaeth ŵyr - Twm Aron - mab i Meilyr a Frances yng Nghaerdydd ar Ebrill 23; brawd bach i Cian a Martha.

**Bws Di-do**

Dyma fys 42 oed ddaeth i feddiant Mid Wales Motors yn ddiweddar - Bristol VR yw hi ac mae Rhys ap Tegwyn, am un, yn meddwl y byd ohoni! Bwriedir ei defnyddio yn fuan fel bws di-do o Fai ymlaen i wneud teithiau awyr agored o Aberystwyth rhwng 10 y bore a 3 y pnawn - wedi eu trefnu gan Aberystwyth ar y Blaen..





**Gwenllian a Steven a briodwyd yn Horeb ar Ebrill 6ed**

**Priodas**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Lauren Barth a Sion James ar eu priodas ar Fai 5 yng Ngwesty'r Cliff, Gwbert.

**Diolch**

Dymuna Elisabeth Wyn a'r teulu ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd yn ystod yr amser trist iawn o golli Gwynfor yn ddiweddar. Hefyd am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r cyfraniadau at 'Spinal Research'.

**Merched y Wawr Penrhyn-coch**

Nos Iau 11eg o Ebrill croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Janice a thrafodwyd y busnes arferol, yna aed ymlaen i groesawu ein gŵr gwadd, sef Hefin Jones o Heddlu Dyfed-Powys. Fe roddodd i ni wybodaeth sut oeddynt yn defnyddio cŵn yn yr heddlu. Sut oedd y cŵn yn cael gafael mewn cyffuriau ac yn y blaen, hefyd cael hyd i gyrff a phobl oedd wedi mynd ar goll. Yr oedd yn agoriad llygad i bawb ohonom i ddeall am y gwaith oedd y cŵn yma yn eu gwneud. Cawsom gyfarfod â'r cŵn oedd Hefin wedi dod gydag ef. Er ei bod yn defnyddio Labradors hefyd, Spaniels, fyddent yn defnyddio fwyaf. Roedd hon yn noson diddorol dros ben. Diolchwyd iddo gan Janice a oedd gyda Felicity a gofal y noson. Cafwyd sgwrs a chwpanaid i ddiweddu'r noson a thynnu'r raffl.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gydag Eirlys Evans a'r teulu, Comins-coch, ar golli gŵr a thad annwyl iawn, sef Llew Evans, fu farw fore Iau 25ain o Ebrill. Un o gymeriadau hynaws yr ardal a fu yn ffyddlon iawn i dîm pêl-droed Penrhyn-coch ar hyd y blynyddoedd. Cynhaliwyd angladd cyhoeddus yn Amlosgfa Aberystwyth ar ddydd Mawrth y 7fed o Fai. Hefyd â theulu y ddiweddar Gwen Pugh, Bow Street, a fu yn agos iawn ei chalon i'r Penrhyn ac a fu yn mynychu'r ysgol ym Mhenrhyn-coch pan yn byw yn y Royal Oak.

**Cofio Dai**

Gŵr, tad a thad-cu annwyl i'w deulu oedd Dai. Gŵr roedd pawb ym mhob man yn ei garu. Fe weithiodd yn galed dros bopeth yn yr ardal hon. Ac yn arbennig i'r neuadd a'r Eisteddfod yma bu'n ffyddlon. Ac mae ein dyled yn fawr am yr hyn a wnaeth e.

Mae ein cofion yn felys amdano yma heddi,

A'n cydymdeimlad yn ddwys gydag Eirian a'r Teulu.

**Mairwen 2019**

Darllenwyd yn Eisteddfod 2019

**Jin – Trafferth mewn Tafarn**

Bydd jin newydd yn cael ei gynhyrchu gan drigolion yn Nhrefeurig er mwyn codi arian i'r Eisteddfod Genedlaethol yng Ngheredigion.

Bydd 'Trafferth Mewn Tafarn' yn cynnwys elfennau o lysieuach a blodau a fyddai wedi tyfu yn ystod dyddiau Dafydd ap Gwilym, a gafodd ei eni yn yr ardal hon.



**Actor gorau Morgannwg!**

Llongyfarchiadau i Trystan Davies - Glan Ceulan gynt - ar gael ei ddewis fel yr actor gorau pan berfformiodd gyda'r Cardiff Players yn ddiweddar yn rownd Morgannwg Gŵyl Ddramau Un Act. Byddant nawr yn mynd ymlaen i'r Ŵyl Genedlaethol yn yr Wyddgrug y mis nesaf. Pob hwyl Trystan!






Prif nodweddion y jin fydd llus du ac ysgawen, ond bydd hefyd yn cynnwys y prif gynhwysion traddodiadol, sef merywen (juniper), lemwn, llysiau'r bara (coriander) a llysiau'r angel (angelica).

Bydd archebion ar gyfer y jin newydd yn cael eu cymryd ddiwedd mis Mai, ac fe fydd poteli maes o law yn cael eu gwerthu yn lleol yn y Garej a Siop Penrhyn-coch. Fe fydd hefyd ar gael ar werth dros y we (www.facebook.com/jintrafferth neu www.instagram.com/jintrafferth)



Cylch Meithrin Trefeurig yn mynd am dro i gasglu pethau natur ac edrych am greaduriaid bach.

Pwyllgor Cronfa Apêl Trefeurig sy'n gyfrifol am greu'r jin, ac fe fyddan nhw'n cyd-weithio gyda chwmni distyllu sydd wedi ei lleoli yn Nhresaith yn ne'r sir, 'In the Welsh Wind', er mwyn cynhyrchu'r ddiod.

Cafodd y syniad ei grybwyll yn ystod cyfarfod cynta'r pwyllgor nôl ym mis Tachwedd, pan gafodd nifer o syniadau codi arian eu trafod. Y cynnig i greu jin gan ddefnyddio cynhwysion cynhenid i'r ardal hon a daniodd y dychymyg, gyda sawl un a oedd yno ar y noson yn awgrymu defnyddio hoffter Dafydd ap Gwilym o'r ddiod a menywod ardal Llanbadarn er mwyn creu enw bachog ac adnabyddus ymysg caredigion y Brifwyl!

Ers hynny mae grŵp llywio y Gronfa wedi bod yn cyd-weithio gyda'r ddistyllfa er mwyn paratoi'r gymysgwch gyntaf.

Y bwriad o'r cychwyn cyntaf oedd cynnwys elfennau o flodeuach a deiliach sy'n tyfu'n gynhenid yn ardal Trefeurig yn y jin, ac fe ofynodd y grŵp llywio i Dylan Davies, Cefn-llwyd, i ddefnyddio ei ddealltwriaeth am flodeuach yr ardal i chwilio am gynhwysion a fyddai'n addas i'w cynnwys yn y ddiod.

Cawson restr gynhwysfawr gan Dylan – mawr yw ein diolch iddo - ac ar ôl rhoi'r wybodaeth i'r distyllwyr, fe gafodd y gymysgedd gychwynnol ei pharatoi ganol mis Ebrill. Fe aeth cynrychiolaeth o'r pwyllgor i'r ddistyllfa yn Nhre-saith i flasu ac i drafod y cynnwys, cyn penderfynu ar y camau nesaf.

Bellach mae'r ail distylliad wedi cael ei gwblhau – a hynny o flaen camerau Heno S4C, a fydd yn darlledu eitem am y jin yn yr wythnosau nesaf – ac mae'r ddistyllfa bellach yn paratoi'r draft nesaf ar ein cyfer hefyd.

Rydyn ni hefyd yn eithriadol o falch fod arlunydd ifanc o Dal-y-bont wedi cytuno i greu darlun ar gyfer label y botel. Mae Lois Jones (@celflois ar Instagram) yn cael ei hysbrydoli gan natur a blodeuach, ac rydyn ni'n ddiolchgar dros ben iddi am ei chyfraniad.

Felly, fe fydd 'Trafferth Mewn Tafarn' yn barod i gael ei brynu ym mis Mehefin! Mae'n ddatblygiad hynod gyffrous.

Bydd y lansiad swyddogol yn digwydd yn y Llew Du yn Aberystwyth ar nos Sadwrn, Mehefin 15. Bydd y noson arbennig yn cynnwys cerddoriaeth a cherddi, a chyfle i flasu'r jin. Erfynniwn arnoch i ddod i'n cefnogi ar y noson arbennig hon, a fydd yn cychwyn am 19.30.

Yn y cyfamser, er mwyn diolch i bawb yn ardal y Tincer am eich cefnogaeth i'r fenter, fe fydd yna noson anffurfiol yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch ar nos Wener, 27 Mai am 19.30. Fe fydden ni'n ddiolchgar am eich cefnogaeth i'r ddwy noson, os yn bosib.

Cofiwch ddilyn ein gwefannau cymdeithasol - www.facebook.com/jintrafferth neu www.instagram.com/jintrafferth - er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am sut i archebu, a chofiwch ddefnyddio'r hashnod #trafferthmewntafarn wrth ei drafod arlein!

**Pêl-droed Penrhyn-coch**

Tim 1af - 27 Ebrill – Penrhyn-coch 3 Conwy 2 - Wrth ennill y gêm hanfodol yma fe fydd Penrhyn-coch yn aros yng Nghynghrair Huws Gray am y flwyddyn nesaf. Llongyfarchiadau i Gari Lewis, yr hyfforddwr, Owain James y capten a'r bechgyn a'r clwb i gyd.

Tim Menywod - Gorffenwyd y tymor gydag ennill gêm yn erbyn Llambed – Penrhyn-coch 3 Llambed 1 i orffen yn y 3ydd safle yn y gynghrair. Gobeithiwn am well lwc y flwyddyn nesaf!

Mae angen chwaraewyr newydd ar y tîm Menywod. Os ydych am gadw yn heini, cymdeithasu gyda chriw hwyliog a chyda diddordeb mewn chwarae pêl-droed beth bynnag yw'ch lefel, cysylltwch gyda ni ar ein tudalen "Facebook" - Penrhyncoch Ladies Football Team neu ar twitter - https://twitter.com/penrhynladies , neu cysylltwch â'r Clwb. Gêmau ar ddydd Sul fel arfer ond rhai gyda'r nos o dan olau. I chwarae rhaid bod dros 16 ond gallwch ymarfer gyda'r tîm pan yn 15. Dim uchafswm oedran!



**Tîm Merched Penrhyn-coch dan 12 oed -Enillwyr Pencampwriaeth Canolbarth Cymru**

# MADOG, DEWI, CEFN-LLWYD

**Oedfaon Madog**
**2.00**
*Mai*
19 Bugail
26 Terry Edwards

*Mehefin*
2
9
16 Bugail – oedfa'r ofalaeth ym Mhen-llwyn 10.00
23 William Owen

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Ken Vincent, Cefn-llwyd, ar ddathlu ei ben blwydd yn 80 oed ar y 18fed o Fai.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir â theulu Lluestfach ar golli modryb a oedd yn byw yng Nghaerdydd.

**Teyrnged i Gareth Hughes Jones**
Ganwyd Gareth yn Ysbyty Famolaeth Aberystwyth ar y 14 o Ebrill 1958. Yn fab i John a Mary o Gefn-llwyd, ac yn frawd i Marianne a David. Treuliwyd plentyndod yn byw yn y pentref a hoffai Gareth fod yn yr awyr iach ond nid yn yr ardd! Aeth i'r Ysgol Sul yn Eglwys Sant Ioan ac i Ysgol Gynradd Penrhyn-coch ac ymlaen i Ysgol Uwchradd Dinas yn Aberystwyth. Efallai ei bod yn deg i ddweud ei fod wedi mynd i'r ysgol am fod rhaid iddo ond mae'n berffaith deg i ddweud ei fod wedi bod yn hapus efo'i ffrindiau ac yn mwynhau yr agwedd gymdeithasol o fywyd ysgol sydd yn bwysig i bob plentyn. Yn ôl adroddiadau ysgol y pwnc a ragorai ynddo oedd gwaith coed ac fel sawl un arall fe benderfynodd wneud bywoliaeth drwy ddefnyddio y gallu naturiol oedd ganddo a gweithio fel saer coed.

Yn ystod ei blentyndod roedd bywyd pentrefol Penrhyn-coch yn tueddu i droi o amgylch y Neuadd a adeiladwyd yn y chwedegau cynnar. Yr eisteddfod a'r carnifal oedd y digwyddiadau a oedd yn orfodol bron i bawb fod yn cymryd rhan. Nid oedd Gareth yn frwd iawn yn y diwrnodau yn arwain at y digwyddiadau ond ar fore'r digwyddiad yn awyddus i fod yn rhan o'r cystadlu. Enillodd wobr gyntaf am ganu (Mi glywaf dyner lais ar y dôn Sara) ac yn y carnifal am wisgo fel claf cyntaf Penrhyn i gael calon wedi trawsblannu ( tua'r un amser a wnaeth Dr Christian Barnard y trawsblaniad cyntaf).

Ar ôl gadael Ysgol Dinas aeth Gareth i Goleg Aberteifi i gael hyfforddiant i gydfynd â'i brentisiaeth fel saer coed. Gweithiodd i gwmni T. Alun Evans yr adeiladwr a chyfarwyddwr angladdau. Yno cafodd



gefnogaeth amrhisiadwy gan Rhys Jenkins ac yr oedd Gareth yn cydnabod cyfraniad Rhys ac yn ddiolchgar iawn iddo am ei ddysgu mor drylwyr a'i baratoi am bopeth a wynebai yn y byd gwaith coed. Ar ôl y cyfnod yma aeth Gareth i weithio efo Will Jones a Nigel James ac wedi rhai blynyddoedd penderfynodd ar ôl tipyn o bendroni i weithio yn hunangyflogedig. Cyflawnodd hyn, mae'n debyg, heb hysbysebu na chael ei rif ffôn ar ochr ei fan. Cafodd gwmni yn y gwaith pan ddaeth Des Roberts i weithio gydag ef ac fe ddaeth y ddau yn gyd-weithwyr hapus a chrewyd partneriaeth gwaith a fu yn weithgar iawn mewn sawl cartref yn yr ardal a hefyd gwnaed llawer o waith yn ysgolion Penweddig a Phen-glais, IGER yng Ngogerddan a hefyd Gwesty'r Richmond yn Aberystwyth.

Er fod gwaith yn bwysig i Gareth a chadw safon yn bwysicach fyth roedd ganddo fywyd personol a llawer o ddiddordebau gan gynnwys canu, Clwb Cinio Aberystwyth, gwylio rygbi a ralïo ceir. Roedd yn gyn aelod o bwyllgor Neuadd y Penrhyn a helpai i baratoi y sioe a'r eisteddfod dros y blynyddoedd.

Yn ogystal â gwaith ac amser hamdden ei deulu oedd y rhan fwyaf pwysig o'i fywyd. Roedd yn fab da ac yn frawd annwyl. Fe briododd a chael dau o blant, Sara a Peter. Roedd yn addoli ei blant ac yn gefn mawr iddynt a'u cefnogi ym mhopeth a wnaent. Daeth yn Ddad-cu i bedwar - sef Taya, Daniel, Charlie ac Alys a'r agwedd yma o'i fywyd a oedd yn fwyaf annwyl iddo. Mae'n debyg bod ei allu i wneud crempog wedi dod yn achlysur i'r wyrion fwynhau gyda dad-cu a byddai yntau yn hapus i fynd i siopa yn gynnar yn Morrisons am chwech y bore er mwyn cael y llenwad a wyddai bod y plant yn hoffi. Roedd Gareth yn ewythr a gor ewythr o'r safon ucha'.

Dros y blynyddoedd daeth Gareth a Jane yn ffrindiau mawr a daeth y ddau mewn amser yn bartneriaid ffyddlon yn mwynhau cwmni ei gilydd. Roedd Gareth yn ymwelydd cyson yn y Borth ac yn mwynhau ymweld â theulu Jane hefyd.

Bydd ei deulu a'i ffrindiau yn colli Gareth yn fawr ond cofir amdano fel dyn addfwyn, cymwynasgar, ffyddlon ac yn gymeriad hynod. Roedd ei hiwmor i'w drysori ac fe gymer amser hir i ddod i arfer a'i golli.

Mae'r teulu yn ddiolchgar iawn i bawb a ddaeth i'w angladd ac wedi synnu yn fawr ar y nifer enfawr a ddaeth i dalu parch iddo. Diolch hefyd i'r Parchedig Lyn Lewis Dafis oedd yng ngofal y gwasanaeth a Bryan Jones am chwarae'r organ yn ystod y gwasanaeth. Mae'r teulu yn gwerthfawrogi y te a'r bwyd a gafwyd yng Ngwesty'r Richmond ar ôl yr angladd dan ofal Mr Richard Griffiths.

Diolch hefyd i Gwyn a Janet Evans o gwmni C.T. Evans a drefnodd yr angladd ac maent yn barod i dderbyn rhoddion i "Calonnau Cymru" ac "Ambiwlans Awyr Cymru" er cof am Gareth.






# Y Stori fer fuddugol

Enillydd yng nghystadleuaeth y stori fer yn Eisteddfod Penrhyn-coch oedd Hedd Llwyd Edwards o Goleg Meirion-Dwyfor, Pwllheli. Mae Hedd yn ŵyr i Hefin a Rita Llwyd, gynt o Dal-y-bont. Mab i'w merch Siriol a'i gŵr Osian. Ar hyn o bryd mae'n astudio Cymraeg, Seicoleg a Bioleg yng Ngholeg Meirion Dwyfor, ond heb benderfynu eto, ar pa bwnc i'w astudio yn y Brifysgol. (Ymddiheuriadau i'r nodyn uchod yn anghyflawn ymddangos yn rhifyn Ebrill.)

**Gadael**

Bownsiai'r gragen fetel goch ar hyd y lôn fawr tuag at Y Bala. Roedd hi'n ddiwrnod braf o haf, yr haul yn chwerthin a'r cymylau wedi mynd ar eu gwyliau i'r gogledd. Gwibiai ambell i aderyn mawr heibio gan geisio dioddef y seren yn llosgi eu cefnau ond roeddent yn benderfynol o gael gwledd . Yn canu uwchben y mynyddoedd oedd corws pluog yn dawnsio a nofio drwy'r awyr yn creu patrymau prydferth fel petai nhw'n ceisio diddanu'r coed. Sefyllian yn syth roedden nhw ar ôl misoedd o ddawnsio gyda'r gwynt, ar bywyd gwyllt o'u crombil wedi mynd allan am y diwrnod.

Yng nghefn y car, yn syllu ar y gwyrddni roedd Nani Ha'. Llenwai ei chlustiau â cherddoriaeth fodern llawn sothach ac roedd arogl persawr cryf ei merch yn boddi ei ffroenau. Yn eistedd yn ddiog wrth ei hochr oedd ei nai Gareth. Ei siwmper *Jack Wills* ddrud a'i drowsus tracwisg du yn rhoi golwg gyffredin iawn iddo gan wrthgyferbynnu gyda ffrog laes flodeuog ffasiynol ei nain.

"Oi Nani Ha be sy?" meddai wrthi, gyda'i wm cnoi yn cael ei daflu o fewn yr ogof fintys.

Gwasgai'r hen ddynes ei llaw fach grychlyd yn dynn yn ei mwclis perlog gwyn gan syllu yn syth drwy'r gwydr tenau. Roedd hi'n wedi dechrau dod yn gyfarwydd gyda'r olygfa. Ei chwm. Cwm Celyn.

"Fan hyn oeddwn i arfer byw!" gwenodd yr hen ddynes. "Dw i'n cofio pan oeddwn i'n hogan fach". Roedd ei gwên bellach wedi bwyta ei hwyneb. "Roedden ni...."

"O ishd ishd ishd dwi licio'r gan ma" tarfodd y bachgen yn gyffrous.

Diflannodd ei gwên. Syllodd yr hen ddynes yn syn ar ei merch yn gobeithio y byddai'n rhoi'r bachgen yn ei le. Ond roedd ei hysgwyddau yn symud i guriad y sŵn bywiog. Trodd yn ddigalon yn ôl at y ffenestr a syllu'n ddwfn i'r llyn.

Roedd Ani mor gyffrous. Roedd hi a'i Nain am fynd am bicnic. Picnic i'r coed. Roedd hi wrth ei bodd yn mynd am anturiaethau diddiwedd gyda'i Nain. Roedd ei Nain yn adnabod pob gwelltyn o'r borfa, pob carreg o'r mynydd, pob diferyn o'r afon, pob person o'r pentref a phob anifail oedd yn byw yn y cwm.

"Lle ydyn ni'n mynd heddiw te?" holodd yn frwdfrydig.

"Wel roeddwn i wedi meddwl mynd i weld Mr Morgan y siop gyntaf gan ei fod wedi paratoi sudd afal i ni fynd efo ni" eglurodd Nain.

"Ond i ble, i ble ydym ni'n mynd?" Roedd Ani bron a thorri ei bol.

"Gei di weld siŵr!" atebodd y Nain gan fwynhau cyffro'r ferch.

"Y goedwig? Y Mynyddoedd?" Ei bol bellach wedi dechrau cracio.

"O paid di a phoeni cariad fe gawn ni hwyl!" Gwenodd y coed arnynt wrth iddynt fwynhau gwledd gyda'r meillion. Roedd bywyd mor hwyliog. Roedd natur i gyd yn chwarae gyda nhw, Y Tywysog a'r Dywysoges yn canu a'r Dewin yn dawnsio, hyd nes i'r haul benderfynu ei bod hi'n rhy hwyr ac yn amser ffoi am adref. Ond gwyddai Ani y cai wneud yr un peth yfory.Roedd hi'n ddiwrnod llwm iawn yng Nghwm Celyn, yr haul wedi dal annwyd a'r cymylau fel hances fawr drwchus yn arbed y byd rhag germau'r seren. Wrth syllu allan o ffenestr ei chartref clyd gwelai Ani Haf ambell i aderyn yn cuddio yn y coed a chlywai gân y gwynt yn chwythu dros y mynyddoedd a thrwy'r coed gwan bregus a oedd yn chwifio ei breichiau'n or-ddramatig. Roedd Tywysog y Mynydd yn ffoi yn ei ogof a Thywysoges y Blodau ymhell o dan y ddaear. Sylwai ar ambell i bry copyn bach yn swatio'n gyfforddus yn eu gwe ac ambell i bryfyn lludw yn rhedeg o dan yr hen ffrâm bren. Wrthi'n plicio'r paent gwyn oddi ar y ffrâm oedd hi, pan gerddodd ei Hewythr Macsen i mewn.

"Esgob mae'n oer" ebychodd yn ei lais dwfn crynedig. "Mae popeth wedi'i bacio rŵan" Dyn tal iawn oedd ei Hewythr Macsen, roedd ganddo gorff mawr cryf a mop o wallt du yn gorffwys yn llipa ar ei ben coch. Hanner ffordd lawr ei wyneb gorweddai lindys mawr blewog du yn cysgodi ei weflau main a'i ddannedd mawr. Llenwodd ei ffroenau mawr gydag arogl cryf tarten afal ei wraig Gwenda.

"Ani fach" meddai yn ei lais llonydd. "Wyt ti dal wrth y ffenestr ers bore ma?"

"Ydi druan" pitïodd ei Modryb Gwenda."Ti am fynd i weld dy Nain a gofyn os ydi hi eisiau darn o'n nharten i?"

Nodiodd Ani'n ddiniwed gan wneud ei ffordd yn araf allan o'r gegin fach a thuag at y grisiau pren. Doedd y grisiau ddim yn mynd yn bell iawn i fyny ond pan oedd hi flwydd neu ddwy yn iau roedd y grisiau hyn wedi bod yn fynyddoedd mawr uchel lle bu hi a'i nain arfer eu concro. Cofiai unwaith fynd i gyngerdd y gwenyn gyda'i Nain, roedd y ddwy mor flinedig y noson honno fe gysgon nhw ar y mynydd pren hwnnw. Agorodd ddrws ystafell wely ei Nain yn araf iawn gan beidio gwneud unrhyw symudiad cyflym y byddai'n dychryn yr hen ddynes fregus. Y tro diwethaf iddi wneud hyn roedd y ddwy yn osgoi deffro'r bwystfil mawr yng nghornel yr ogof fach binc. Gofidiodd Ani fod y dyddiau hynny drosodd am byth. Gwthiodd ei phen yn araf i mewn i'r ystafell gan ddisgwyl gweld corff llonydd yn gorwedd yn ei gwely. Ond fe gafodd sioc! Saethodd cerddoriaeth hudolus i mewn i'w chlustiau pitw. Edrychodd yn syn i mewn i'r ystafell. Gwenodd. Yn dawnsio'n wyllt o amgylch yr ystafell fach oedd ei Nain."Nain?" chwarddodd mewn cymhlethdod.

"Ani fach" gwenodd yr hen ddynes yn fywiog. "Tyrd i mewn" Roedd ei gwisg nos yn chwyrlio fel petai ganddi ffrog foethus a'i bod hi mewn neuadd fawr yng nghanol Llundain yn ystod y ganrif gynt, ac o amgylch ei gwddf, roedd y mwclis mwyaf prydferth erioed, Ei mwclis perlog gwyn. "Dwi wrth fy modd gyda'r gân yma, wyddost i?!"

"Rydych chi'n well?!" meddai Ani yn hapus.

"Tyrd yma ddysgai di sut i ddawnsio" cynigiodd y ddawnswraig chwim.

"Ond nain da chi'n sâl" meddai Ani gyda phoendod yn ei llais. "Ddylech chi orffwys!"

"Mam bach Ani ble wyt ti wedi mynd?" holodd Nain mewn penbleth "Wyddost i mae i'r meirw mae cwsg! Dw i dal yn fyw siŵr ac fe fyddai dal yn fyw am byth, cofia!"

Doedd Ani ddim yn gwybod beth i'w wneud. Roedd y ddynes yn sâl ac yn wan. Doedd hi ddim fod i ddawnsio o amgylch yr ystafell fel troellwr oedd wedi cael gormod o siwgr. Neu oedd hi?

Wedi'r cyfan roedd Dewin y Dail wedi'i gwneud hi'n anfarwol. Neidiodd y ferch fach i gyfeiriad ei nain a dawnsio fel fod dim fory. Ond doedd dim fory. Dim fory yng Nghwm Celyn.

Cerddodd Ewythr Macsen i mewn i'r ystafell yn gyflym. Edrychodd yn syn ar Ani'n dawnsio'n wyllt o amgylch yr ystafell.

"Ani fach beth wyt ti'n wneud?" meddai ychydig yn flin. Edrychodd ar ei fam a orweddai'n llonydd ar ei gwely. "Fe allet ti ddeffro dy Nain!"

"Deffro Nain? Da chi wedi gweld hi'n dawnsio gymaint â hyn o'r blaen?" holodd yn frwdfrydig. Trodd rownd i gael cip o'r hen ddynes yn mwynhau ei hun. Ond doedd hi ddim yna.

"Ble aeth hi?" edrychodd o'i hamgylch yn gyflym, diflannodd ei gwên. Syllodd ar y gwely. Syllodd Nani Ha' ar y llyn. Yn dawnsio ar y dŵr oedd Nain. Ei mwclis yn chwyrlio yn y gwynt, a'i ffrog laes foethus yn dawnsio ar ei phen ei hun. Doedd dim meillion yn chwerthin ar y bryn, doedd dim adar yn clapio yn y coed. Doedd y coed ddim yn gwenu o hyd a doedd y tywysog na'r dywysoges yna yn gwylio'r dawnsio. Ond roedd Nain yna, roedd Nain yno o hyd. Gan mai Nain oedd ei Chwm.

"Dw i wrth fy modd gyda'r gân yma!" meddai Nani Ha' wrthi ei hun.

**Hedd Llwyd Edwards**
**Chwilog**

**Stori fer fuddugol Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2019**

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Ebrill 18fed yn Neuadd Bentref Pen-llwyn, Capel Bangor gyda'r cadeirydd Aled Lewis yn y gadair. Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth dau gynghorwr

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth fel rhai cywir. Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn llythyr o ddiolch am y rhodd ariannol oddi wrth Merched y Wawr Melindwr a CAB Ceredigion. Mae'r fainc wedi ei gosod yn ei lle yn Goginan.

Roedd dau gais cynllunio wedi dod i sylw y Cyngor; nid oedd wrthwynebiad i'r un.

Bydd y Cyfarfod Blynyddol ar nos Iau Mai 16eg am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor. Croeso i bawb.

Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol cynhelir cyfarfod mis Mai.

## DOL-Y-BONT

**Priodas**

Llongyfarchiadau mawr i Leri Lewis, gynt o Cysgod y Gwynt, ar ei phriodas â Ian Bunton o Bontarfynach. Priodwyd hwy ar ben Consti ddiwedd mis Ebrill. Maent wedi cartrefu yn Maes Henllan, Llandre, gyda'u merch fach Isla Rose. Pob dymuniad da i chi i'r dyfodol.




Cynhelir gwasanaeth cyhoeddus dydd Sadwrn 17 Mai am 1.30 yng Nghapel y Garn. Derbynnir rhoddion, os dymunir, tuag at Kennedy's Disease UK trwy law Gwyn Evans, Cyfarwyddwr Angladdau, Llandre.

# Twrnament Pêl-droed Penrhyn-coch




Enillwyr dan 11 Penrhyn-coch Ail Ystwyth Rhinos B



Chwaraewr gorau - Euros Lloyd Ystwyth Gators o dan 14 yn ennill. Tarian Her wedi ei rhoi gan Catrin Galbraith Sioned Martin am Chwaraewr Gorau y Twrnament

# Dramâu

Llongyfarchiadau i gwmni Licris Olsorts enillodd y wobr gyntaf am berfformio Ni'n Dwy gan Nan Lewis yn y gystadleuaeth actio drama fer agored yng Ngŵyl Ddrama Corwen nos Sadwrn 11 Mai ; i Oisín Lludd am gipio'r wobr gyntaf ar y gystadleuaeth perfformio monolog agored; i Gwenllian King enillodd y tlws am yr actor gorau dan 18 am ei phortread o Mari yn y ddrama Ni'n Dwy ac i gwmni drama Doli Micstiyrs gipiodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth actio drama fer dan 18 am berfformio Adolf (Emyr Edwards) – drama ysgrifennwyd iddynt yn arbennig ganddo ar ôl iddynt ennill gyda'i ddrama Apocalyps yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala 2009. Y fam a'r ferch Sharon a Gwenllian King oedd yn perfformio Ni'n dwy.




SIOP Y PETHE

Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion

01970 617120

Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan

www.siopypethe.cymru



MYNACH GARDEN MAINTENANCE

**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**

Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

**Ffoniwch Meirion:**

07792 457816

01974 261758

e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

# Colofn Enwau Lleoedd

Y mis hwn fe drown ein golygon at gwr gogleddol dalgylch *Y Tincer*, rhwng pentrefi Rhydypennau a Thal-y-bont, ac yn benodol at gae sydd wedi ei leoli i'r gorllewin o'r briffordd gyferbyn â'r fynedfa i ffermydd y Fagwyr a Phen-banc.

Cofnoda Rhestri'r Map Degwm yn 1845 bod y cae'n perthyn i fferm Glan-fred, Llandre, ac mai ei enw oedd *Cae Siôn Whaff*.




**Map Degwm Llanfihangel Genau'r-glyn o https://lleoedd.llyfrgell.cymru/ trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Ond pwy oedd *Siôn Whaff* a beth oedd mor arbennig yn ei gylch? Yn ôl tystiolaeth Isaac Jones, Pen-banc (a gofnodwyd gan Llew Davies, Llwynderw, Pen-bont Rhydybeddau, yn y *Tincer* (rhifyn xlviii. t.8) yn Ebrill 1982) lleidr pen-ffordd oedd *Siôn Whaff*. Dengys y Map Degwm bod y cwm bychan yn union i'r de o *Gae Siôn Whaff* unwaith yn goediog, ac yno yr arferai *Siôn* lechu er mwyn ymosod ar deithwyr fyddai'n tramwyo'r ffordd honno.



Fel mae'n digwydd, yr hen enw llafar ar y cwm hwn oedd *Twll Tin y Byd*. Cyfeiria Tom MacDonald at '*[r]iw Twll-tin-y-byd*' yn ei gyfrol *Y Tincer Tlawd* (1971; t.69) gan nodi "na byddai neb yn mentro iddi wedi nos am fod ysbryd yno". Tybed a oedd ofn yr ysbryd yn adleisio ofn cynharach am y lleidr pen-ffordd *Siôn Whaff*?

Cofiwch gymryd gofal felly wrth deithio rhwng Rhydypennau a Thal-y-bont!

**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun GWARCHOD

**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

# Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol


GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
CYFARFOD BLYNYDDOL
Cynhelir cyfarfod blynyddol
Canolfan Morlan
ar nos Lun,
20 Mai 2019
am 6.00 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb
www.morlan.cymru
01970 617996
morlan.aber@gmail.com
Morlan, Morfa Mawr,
Aberystwyth
SY23 2HH 01970-617996

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
Brecwast
ar gael
01970 820 050
Pennau

Clwb Cymdeithasol
Pêl-droed
Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr
gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru
calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr
i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

GWASANAETH
GARDDIO
ROBERT
GRIFFITHS
Am bob math o waith
garddio ffoniwch
(01970) 820924

# BOW STREET

**Suliau**
Capel y Garn
10

*Mai*
19 Bugail
26 Terry Edwards

*Mehefin*
2 Noddfa
9 Bugail
16 Bugail – oedfa'r ofalaeth ym Mhen-llwyn
23 William Owen
30

**Noddfa 10.00 oni noder yn wahanol**

*Mai*
19 10.30 Uno yn y Garn – Sul Cymorth Cristnogol
26 Y Parchg Richard Lewis

*Mehefin*
2 Y Parchg Richard Lewis Y Garn yn uno
9 Y Parchg John Gwilym Jones Cymundeb
16 Cyfeillach
23 Dr Rhidian Griffiths
30 Miss Beti Griffiths

**Merched y Wawr Rhydypennau**
"Brocera" oedd y testun ar raglen Ebrill 8fed. Cyflwynodd Brenda Jones ein llywydd, Gwawr Davies o Aberaeron sy'n diddori mewn gwneud pethau o froc môr. Roedd wedi dod a llond bwrdd o bethau i'w harddangos. Mae'n credu yn gryf hefyd mewn ailgylchu. Eglurodd sut oedd yn mynd ati i drin y broc a'i lanhau, a pha offer oedd yn defnyddio i greu'r gwrthrychau. Hobi oedd a dyfodd yn beth mwy wrth eu rhoi yn anrhegion i ffrindiau a'r rheini eisiau iddi wneud rhai iddyn nhw eu rhoi. Ar ddiwedd y noson cawsom gyfle i brynu gwrthrychau o'r bwrdd.

Does dim siop ganddi ond gellir prynu'r nwyddau mewn gwahanol siopau fel Eliffant a Bananas, Aberaeron,Y Moody Cow (siop fferm) Llwyncelyn, ac Amgueddfa Aberystwyth. Cafwyd noson ddiddorol iawn.

I orffen cafwyd paned wedi ei pharatoi gan Carys Davies a Liz Jones ac enillwyd y raffl gan Beryl Hughes.

Ym mis Mehefin mae'r gangen yn dathlu'r 50. ac wedi penderfynu mynd am de prynhawn yng Ngwesty'r Conrah ar y 12fed. Mae croeso i gyn aelodau i ymuno â ni. Am fwy o wybodaeth cysyllter â Joyce Bowen ar 820330 neu Brenda Jones ar 828887



**Ffrindiau Cartref Tregerddan**
BBQ yn y Cartref
Nos Wener 21 Mehefin
am 6.30 o'r gloch
Croeso i bawb

**Pen blwydd arbennig Priodas Aur**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Robert a Delyth Jenkins, 9 Maes Ceiro, ar ddathlu eu Priodas Aur.

**Pen blwydd arbennig**
Pob dymuniad da i Mrs Annette Morgan, Ty'n Rhos ar ddathlu pen blwydd arbennig ddechrau'r mis. Yn ôl pob sôn prin iawn fu'r sylw i'r Gwnïo yn un o gyfarfodydd y Dosbarth Gwnio!

**Noson Goffi**
Cynhelir Noson Goffi flynyddol Capel Noddfa yn y Festri nos Wener, 5 Gorffennaf am 7.00 o'r gloch Croeso mawr i bawb fel arfer.

**Cyngor Cymuned Tirymynach**
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor yn Neuadd Rhydypennau, Nos Iau, 30 Mai 2019 am 7.00 o'r gloch.

**Hoci**
Mae'n sicr bod Mrs Elen Evans, Erw Las, wedi datblygu'n dipyn o arbenig wraig ar hoci yn ddiweddar wrth iddi ymroi i ddilyn llwyddiant dau o'i hwyrion dros y blynyddoedd. Y mae Gerallt a Dafydd wedi troi allan yn gryn arbenigwyr yn y maes ac wedi dechrau yn lleol yn ardal Tywyn, Gwynedd, mae'r ddau bellach yn chwarae'n rheolaidd i Glwb Hoci Caer. Dros gyfnod y Pasg bu Dafydd yn rhan o dîm llwyddiannus dan 18 Cymru. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i'r ddau.



Dafydd Jones




**Grŵp Help Llaw y Garn**
Malcolm Dye, o Banc Bwyd y Jiwbili (Eglwys St Ann, Penparcau) yn casglu rhoddion wedi'u trefnu gan Grŵp Help Llaw Capel y Garn. Yn y llun (chwith i'r dde) Liz Lloyd Jones, Bethan Jones, Malcolm Dye, Ann Jones, Shân Hayward.

**Llwyddiant i'r tîm dan 10 oed**
Enillodd tîm Bow Street dan 10 oed dwrnament Aberaeron penwythnos cyntaf mis Mai, gan sgorio 32 gôl ac ildio 0. Tipyn o gamp! Llwyddodd y tîm i ddod i'r brig allan o 28 o dimau, gan chwarae 9 gêm, ennill 8 a chael un gêm gyfartal. Yn y rownd derfynol curodd y bechgyn Llambed 1-0, gyda Kai Tanner Rhodes yn sgorio'r gôl fuddugol gydag ond ychydig funudau'n weddill. Yn ogystal, dewiswyd Kai fel chwaraewr gorau'r dydd dan 10 oed. Mae'r bechgyn wedi bod yn aelodau o Glwb Pêl-droed Bow Street ers eu bod yn 5 oed, ac mae'r canlyniadu gwych yn adlewyrchiad o'r gwaith arbennig sy'n cael ei wneud yn hyfforddi'r ieuenctid lleol. Llongyfarchiadau iddynt ac i'r hyfforddwyr Mark Davies a Paul Crane.



# Ysgol Penweddig

**Seiclo**

Mae Griff Lewis wedi cael cryn dipyn o lwyddiant ar ddwy olwyn yn ddiweddar, wrth iddo ennill yr ail wobr yn y ras 'Battle of the Beaches' yn ystod mis Ebrill. Pob lwc i ti am weddill y tymor sydd i ddod!



**Cerddoriaeth**

Cafwyd profiad arbennig i ddisgyblion Cerdd yr Ysgol ar ddechrau'r mis wrth i Tesni Jenkins, Soffia Nicholas, Ffion Hicks, Glain Llwyd Davies, Nia Benham, Sion James a Gwion Crampin glywed eu cyfansoddiadau yn cael eu perfformio gan y grŵp the 'Hermes Experiment'. Diolch i'r cyfansoddwr Lynne Plowman a Cerddorion Ifanc Dyfed am drefnu'r gweithdy!

**Ffrangeg**

Cafodd 4 disgybl o flwyddyn 9 (Annest Davies, Gweni King, Ifan Clubb ac Isaac Pridmore) brofiad ysbrydoledig o fywyd ym Mhrifysgol Rhydychen, diolch i daith a drefnwyd gan Routes Into Languages Cymru. Yn ystod y daith cafwyd gweithdai gyda darlithwyr a myfyrwyr o'r Brifysgol, cyfle i weld Llyfr Coch Hergest yn y Llyfrgell a theithiau o gwmpas rhai o fannau mwyaf adnabyddus y ddinas













# Ysgol Craig yr Wylfa

**Eisteddfod Ysgol**
Da iawn i bob plentyn yn yr ysgol - aethant i gyd i fyny i'r llwyfan i gystadlu yn ein Heisteddfod Ysgol. Diolch i Lowri Steffan a wnaeth y gwaith beirniadu.

**Gŵyl Aml Sgiliau**
Aeth blynyddoedd 3 a 4 a dau lysgennad Efydd yr ysgol i ŵyl Aml Sgiliau ar gae Prifysgol Aberystwyth. Cawsant gyfle i wneud amryw o weithgareddau o ddawnsio i sgiliau rygbi. Roedd pob un ohonynt wedi mwynhau'n fawr!

**Ffair Pasg a Pharti Pwdin**
Ar y prynhawn olaf o dymor y Gwanwyn, cynhaliwyd Ffair Pasg a Pharti Pwdin yn yr Ysgol. Roedd llawer o'r plant wedi ymdrechu i wneud hetiau Pasg pert iawn ar gyfer y gystadleuaeth creu Boned y Pasg. Cafodd y plant i gyd hwyl yn chwilio am wyau Pasg a oedd wedi cael eu cuddio o amgylch yr Ysgol gyfan. Cyfrannwyd amryw o bwdinau gan staff yr Ysgol, ac yna talwyd £5 gan ffrindiau'r ysgol i lenwi ei bowlen gyda chymaint o bwdin a hoffent. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r ysgol.

**Llangrannog**
Ar ddechrau'r tymor, aeth rhai o ddisgyblion Cyfnod Allweddol dau i aros yn Llangrannog. Roedd y plant wedi cael amser da yng Ngwersyll yr Urdd, gan wneud llawer iawn o weithgareddau hwyl megis sgïo, marchogaeth a chyfle i fynd ar y beiciau cwad.







D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Ysgol Penrhyn-coch

**Celf a chrefft yr Urdd**
Llwyddiant ysgubol eleni eto i'r disgyblion fuodd yn greadigol wrth greu eitemau celf a chrefft o safon uchel iawn! Dyma'r rhai ddaeth i'r brig ac mi fyddan nhw'n cynrychioli Ceredigion yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Gwehyddu: grŵp Bl 2 iau-Jac Efan Jenkins, Mya James, NedWilliams ac Elis Emlyn
Arteffact: grŵp Bl 2 iau - Twm Williams, Mabli ap Llywelyn, Florence Myfanwy Ifan, Noah Davies a Sofie Gillies
Crochenwaith - Moch bach - Gruffudd ap Llywelyn, Harrison Hughes a Noah Davies
Gwehyddu Bl 3 a 4 – Elis Wyn Jenkins- Dolffin Bwrlwm y Bae
Gwehyddu Bl 2 iau-Jac Efan Jenkins - Cwch gwenyn
Collage Bl 5 a 6 –Osian Shek

**2il Safle**
Crochenwaith y ffair-Jac Efan Jenkins Bl 2 iau
Crochenwaith grŵp Bl 2 a iau-Rhys Mills, Iona Evans, Mabli ap Llywelyn
- Crochenwaith grŵp Bl 3 a 4 –Band Mr Urdd-Gwen Gibson, Lleucu ap Llywelyn, Elis Wyn, Freya Watkins, Abigail Evans

**3ydd Safle**
Crochenwaith grŵp Bl 5 a 6 –Grand Slam-Betsan Cleary, Sian Evans, Imogen Usher, Daisie May

Diolch arbennig i Lynwen a Carys Jenkins am roi llawer o amser i weithio gyda'r plant-roedd y ddwy wedi medru cynnal sesiynau gwerth chweil i ddatblygiadau'r disgyblion. Rydym yn ddiolchgar iawn yn yr ysgol.

**Bible explorers**
Diolch i Annette o Bible Explorers a ddaeth i ddysgu a thrafod am y Testament Newydd gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6. Roedd y disgyblion wedi mwynhau perfformio rhannau o'r Testament Newydd. Diolch i'r Parchg Lyn Dafis am gyflwyno'r Beiblau i flwyddyn 5 eleni.

**Pêl-droed /Pêl-rwyd yr Urdd**
Cynhaliwyd Cystadleuaeth pêl-droed 7 bob ochr yr Urdd ar ddydd Mawrth y 9fed o Ebrill ar gaeau Blaendolau. Cystadlodd tîm bechgyn a merched yr ysgol yn wych gyda'r ddau dîm yn cyrraedd y rownd go-gynderfynol ac yn anlwcus iawn i beidio a mynd ymhellach. Da iawn i bawb am gystadlu.

**Glan-llyn**
Am drip preswyl a hanner!! Bwyd blasus, cwmni campus a gweithgareddau gwych.










Ymhlith y gweithgareddau oedd y sit-ons, cwrs rhaffau, canwio, adeiladu rafft i enwi rhai. Mwynhaon ni mas draw. Trip bythgofiadwy a oedd yn llawer o hwyl

**Parêd Prysur y Pasg**
Braf oedd cael gorymdeithio o amgylch y pentref i ddathlu'r Pasg a diweddglo i'r thema Carnifal. Canu caneuon am y Pasg a chreu digon o sŵn efo'u hofferynnau grewyd fel gwaith cartref ac ymweld â henoed y pentref. Ymweliad i Eglwys Sant Ioan am y stori tu ôl i'r ffenestri lliw gan y Parchg Lyn Dafis. Cafodd y rhieni wahoddiad i ymuno â ni ar iard yr ysgol yn yr hwyl a sbri.

**Gŵyl aml sgiliau Bl 3 a 4**
Cynhaliwyd y sesiwn yma gan Actif Ceredigion –mae'r plant wrth eu boddau yn ymarfer sgiliau o ffitrwydd!

**Criced-'All stars' Bl 1 a 2**
Cafodd plant blwyddyn 1a 2 brynhawn o hwyl a sbri wrth ddysgu sgiliau criced newydd a chyfle i glywed am y clwb criced 'Cricket All Stars' sydd yn cael ei gynnal dros yr Haf yn lleol.

**Dawns flodau 2020**
Llongyfarchiadau mawr i ti Gwen bl 4 ar gael dy ddewis fel un o ddawnswyr y ddawns flodau yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion, Tregaron 2020. Rydyn i gyd yn browd iawn ac yn disgwyl ymlaen dy weld yn y seremonïau.

**Croeso!**
Hoffwn groesawu disgyblion newydd a gychwynodd ar ôl gwyliau'r Pasg-gobeithio byddwch yn hapus yn ein plith :Archie Makaruk,Anest Emlyn, Poppy Cannings, Canice Mason-Bloomer, Ellis Radcliffe ac Ava Bramham.





# Ysgol Rhydypennau

**Eisteddfod Ysgol**

Cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol eleni ar yr 11eg o Ebrill. Yn dilyn wythnosau o ymarfer a chwblhau gwaith penodol ar gyfer cystadlaethau dosbarth, daeth yr amser i feirniadu ymdrechion y plant. Roedd hi'n ofynnol fod pob unigolyn yn adrodd neu ganu neu chwarae darn offerynnol. Yn ychwanegol i hyn bu'r beirniad yn dewis y gorau ymysg cystadlaethau'r dosbarth. Roedd pob tasg yn y gystadleuaeth yn ymwneud â Chymru. Ac ar gyfer y brif gystadleuaeth, sef ennill 'Y Gadair', bu blwyddyn 6 yn cyfansoddi cerddi ar y thema 'Cymreictod'. Roedd ansawdd y cerddi yn arbennig o dda eleni eto, ond, ar ganiad y corn, Gethin Davies a gododd o ganol y gynulleidfa i gipio'r Gadair. Diolch i Huw Meirion, Llandre am feirniadu'r cerddi.

**Cymreictod**

Cymreictod i mi yw ein chwedlau
Y Mabinogi, Cantre'r Gwaelod a mwy,
straeon, cerddi ac hanes;
delweddau cof-iad-wy.

Cymreictod yw'n cestyll caregog
sy'n mapio ein tirwedd yn glir;
adfeilion sy'n dangos hen hanes
am frwydrau a rhyfeloedd tir.

Cymreictod yw'r Eisteddfodau
a thraddodiadau'r Cadeirio;
Coroni beirdd a 'Dawns y blodau;'
canu Cerdd Dant, llefaru ac actio.

Cymreictod yw ein tirwedd,
y bryniau a'r afonydd pur;
mynyddoedd mawr a'n coedwigoedd,
y llynnoedd a'r nentydd hir.

Cymreictod yw ein balchder
a'n gallu i gofio'n treftadaeth;
gwlad fach ond calon enfawr,
Dathlwn ni ein hunaniaeth.

*Gethin Davies*

Ac ar ôl cystadlu'n frwd, roedd pwyntiau'r tri thŷ yn agos iawn; ond Ystwyth a gariodd y dydd yn y pen draw; Eleri ddaeth yn ail a Rheidol yn drydydd. Da iawn i bawb am ymdrechu mor galed i sicrhau Eisteddfod lwyddiannus iawn eleni eto. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r beirniaid profiadol am eu doethineb - sef Mrs Julie Williams a Mrs Janice Rees. Diolch hefyd i Mr Wynne Melville Jones am feirniadu'r gwaith llaw.

**Prifysgol**

Yn ddiweddar, fe aeth plant blwyddyn 5 a 6 i'r Brifysgol er mwyn dathlu'Wythnos



Sesiwn aml-sgiliau yn y Brifysgol.

Gwyddoniaeth'. Profodd y plant nifer o weithgareddau diddorol iawn yn ystod y bore a hwyluswyd y dysgu gan fod y tasgau yn ymarferol ac yn weladwy iawn.

**Sesiwn Sgiliau**

Ar fore olaf tymor y gwanwyn, cafodd blwyddyn 3 a 4 gyfle i wella a datblygu eu sgiliau chwaraeon wrth fwynhau sesiwn sgiliau ar faes y Brifysgol. Cafwyd sesiwn ddifyr iawn gyda'r plant yn mwynhau pob math o weithgareddau o fyd y campau.

**Gorchest**

Llongyfarchiadau mawr i Enid a Mirain am ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Dylunio a Thechnoleg Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd. Bydd modd gweld gwaith y ddwy ar faes yr Eisteddfod lawr ym Mae Caerdydd yn ystod hanner tymor.

**Clwb Cant**

Dyma ganlyniad Fis Mai:-
1af. £25- 69 Cheryl Evans.
2il. £15-65 Neil Parr-Davies.
3ydd £10-64 Emma Parr-Davies.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*



Capteniaid Ystwyth Cai a Llio yn dathlu.



Llongyfarchiadau i Gethin Davies, yn ail- Elin a thrydydd i Erin ac Elen (cefn-o'r chwith).



Wythnos gwyddoniaeth



Gweithgareddau difyr wythnos Gwyddoniaeth.

# Ysgol Pen-llwyn

**Glan-llyn**
Aeth blwyddyn 5 a 6 ar wyliau preswyl i Lan-llyn cyn gwyliau'r Pasg. Cawsom lawer o hwyl yn gwneud gweithgareddau ar Lyn Tegid megis canŵio ac adeiladu rafft a sawl un ar dir sych sef dringo'r wal uchel a chwrs rhaffau. Mwynheuodd y plant yr holl brofiadau anturus ac wrth gwrs y disgo!

**Gŵyl Aml Sgiliau**
Mwynheuodd blant blwyddyn 3 a 4 sesiwn Aml-Sgiliau yn y Brifysgol. Roedd yn brynhawn braf gydag amrywiaeth o weithgareddau. Diolch i staff Ceredigion Actif am drefnu.

**Trawsgwlad**
Aeth 4 o blant - sef Efanna Lewis, Ana Joyce, Deri Gwynne ac Issy Cooper i gynrychioli'r Ysgol yng nghystadleuaeth Trawsgwlad yn Llangrannog. Roedd y 4 wedi gwneud yn arbennig o dda. Llongyfarchiadau mawr i Ana Joyce am ddod yn gyntaf yn y ras i ferched Blwyddyn 6.

**Gêmau Ucheldir Cymru**
Diolch yn fawr i Mr Dic Evans am drefnu rhan o'r penwythnos i blant oedran cynradd. Roedd yn braf cael cystadlu yn erbyn ysgolion lleol a gwneud amrywiaeth o gystadlaethau. Roedd tîm Pen-llwyn wedi gwneud yn arbennig gan weithio fel tîm yn arbennig o dda.

**Gwasanaeth Pasg**
Daeth y Ficeriaid – Y PArchedigion Andrew a Heather Loat i gynnal gwasanaeth cyn gwyliau'r Pasg. Diolch yn fawr am adrodd stori'r Pasg a chanu caneuon gyda ni.

**Parêd Pasg Pen-llwyn**
Cyn diwedd y tymor, aeth y Cyfnod Sylfaen ati i drefnu Parêd Pasg. Roedd y plant wedi creu gwisgoedd, offerynnau a chaneuon i wneud tipyn o sŵn o gwmpas yr Ysgol.

**Sŵ'r Borth - Cyfnod Sylfaen**
Daeth dau aelod o staff o Sŵ'r Borth i ddangos amrywiaeth o anifeiliaid i'n dechrau ni ar ein gwaith y tymor yma. Roedd y plant wedi mwynhau cwrdd â Banana y neidr, crwban a phryfed brigyn. Byddwn yn edrych yn fanylach ar drychfilod yn ystod tymor yr Haf.

**NSPCC**
Daeth Rhian a Bydi i'n dysgu ni sut i gadw'n ddiogel. Roedd pawb wedi gwrando'n astud ar y negeseuon pwysig yma.

**Plant Newydd**
Croeso i'r plant newydd - sef Ffion a Bella-Reiss yn nosbarth 1. Gobeithio bydd y ddwy yn hapus iawn yn ein plith.


Pared Pasg Penllwyn


Glan-Llyn


Trawsgwlad







Sw Borth


Gemau Ucheldir Cymru

# Tasg y Tincer



Cennydd

Diolch i bawb fu'n brysur yn lliwio'r wy Pasg hardd. Dyma'r enw – ac mae'n hyfryd gweld nifer o rai newydd yn eu plith. Daliwch ati, bawb! Caitlin Rees Roberts, Penrhyn-coch; Cai Boyce, Caerdydd; Anest Erwan Jackson, Bow Street; Noah Fox, Llanilar; 'Eseta Tapa'atoutai-Uhi, Caerdydd; Betsi Anne ac Elsie Magor, Llansanffraid; Cennydd Davies, Llanilar; Alaw a Lisa Thomas, Llanwnnen; Anne Jen Dunne, Bont-goch; Maia Meredydd, Caerffili; Cari Jenkins, Penrhyn-coch.

Dy lun di, Cennydd, ddaeth o'r het. Llongyfarchiadau!

Mae Eisteddfod yr Urdd ar fin dod i Gaerdydd – pob lwc i bawb o ardal y *Tincer* fydd yn cystadlu, a gobeithio y bydd pob un ohonoch chi sy'n ymweld â'r steddfod yn cael amser gwych. Cofiwch ddweud helô wrth Mr Urdd ar y Maes!

Wyddoch chi fod yna ddiwrnod pwysig iawn yn cael ei ddathlu ar 17 Mai? Dyma ddyddiad **Diwrnod Rhyngwladol Twm Siôn Cati**. Dydyn ni ddim yn gwybod rhyw lawer am Twm, ond y dyddiad 17 Mai, 1609 sydd ar ei ewyllys, ac mae honno'n cael ei chadw'n saff yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Mae'n 410 oed y mis hwn!

Dyn o ardal Tregaron oedd Twm. Roedd yn gymeriad diddorol a lliwgar, yn lleidr pen-ffordd ac yn fardd! Mae digon o straeon wedi eu sgwennu amdano – ydech chi wedi darllen y darn amdano gan Meinir Edwards yn *Deg Chwedl o Gymru*? Roedd T. Llew Jones wedi gwirioni ar hanes Twm – mae *Y Ffordd Beryglus*, *Dial o'r Diwedd* ac *Ymysg Lladron* yn llawn o'i anturiaethau dewr! A sôn am lyfrau gwych, byddwn yn gwybod erbyn diwedd y mis pwy yw enillydd Gwobr Tir na n-Og 2019 am y llyfr Cymraeg gorau i blant. Pa lyfr fyddech chi'n ei ddewis?

Dyma lun o ffrindiau'n rhannu stori dda. Beth am roi teitl eich hoff lyfr ar y meingefn? Anfonwch eich lluniau i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Mehefin. Mwynhewch y gwyliau hanner tymor pan ddôn nhw!

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >